

Pwyllgor Capel Coch

Soniais yn y tri rhifyn diwethaf ein bod yn gobeithio y deuai cynrychiolwyr yr Henaduriaeth i gyfarfod â blaenoriaid a phwyllgor adeiladuo Capel Coch nos yfory.

Gwaetha'r modd, cefais wybod neithiwr nad ydynt yn gallu dod nos yfory, ond maent yn awgrymu dod atom nos Fercher yr wythnos hon, Hydref 16.

Gobeithiwn allu cadarnhau yn yr oedfa heno bod y cyfarfod hwn yn hwylus i ni.

Diolch a Chroeso

Diolch yn fawr iawn i athrawon y ddwy Ysgol Sul am eu gwaith paratoi ar gyfer yr oedfaon Diolchgarwch heddiw.

Estynnwn groeso cynnes i bawb a fydd wedi ymuno â ni i ddatlu ac i addoli Duw yn y Gwasanaethau Diolchgarwch yn ystod y dydd.

Y mis nesaf - Deiniolen

Hydref 13

10.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Oedfa Ddiolchgarwch

Hydref 20

10.00 a.m. - Oedfa Deulu
5.00 p.m. - Y Gweinidog

Hydref 27

10.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Y Parchg Trefor Jones

Tachwedd 3

9.30 a.m. - Oedfa Deulu
10.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Y Gweinidog

Cyhoeddiadau

CEFNYWAUN AC EBENESER

Dydd Sul, Hydref 20: Cynhelir Gwasanaeth Diolchgarwch yn yr Oedfa Deulu am 10.00 o'r gloch ac oedfa am 5.00 o'r gloch. Bydd y ddwy oedfa yng ngofal y Gweinidog.

CAPEL COCH A NANT PADARN

Nos Fercher, Hydref 16: Pwyllgor gyda chynrychiolwyr yr Henaduriaeth i'w gadarnhau heno gobeithio.

Nos Wener, Hydref 18: CIC am 7.00 o'r gloch yn y festri.

Dydd Sadwrn, Hydref 19: Diwrnod CICIau yn Glasfryn, Y Ffôr. Bws yn cychwyn am 9.00 o'r gloch y bore.

Dydd Sul, Hydref 20: Gwasanaethir gan y Parchg Iorwerth Jones Owen, Caernarfon am 10.00 o'r gloch. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch. Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan Mr Richard Lloyd Jones, Bethel.

REHOBOTH

Dydd Sul, Hydref 20: Ni fydd oedfa.

Y mis nesaf - Llanberis

Hydref 13

10.30 a.m. - Oedfa Deulu
Diolchgarwch y Plant
5.00 p.m. - Oedfa MOLI

Hydref 20

10.00 a.m. - Y Parchg Iorwerth Jones Owen
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Mr Richard Lloyd Jones

Hydref 27

10.00 a.m. - Y Gweinidog
Dim Ysgol Sul
5.00 p.m. - Y Gweinidog

Tachwedd 3

10.00 a.m. - Mr Ifor Glyn
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Y Parchg Marcus Robinson



Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Deiniolen, Llanberis a Nant Peris
Rhif 562 – Dydd Sul, 13 Hydref 2013

Glaw eto?

Mae yna siawns go lew y bydd hi'n bwrw glaw heddiw. Yn ôl a ddeallaf, fe gawsom ni law yn yr ardal hon mewn naw o'r deg blynedd diwethaf ar y dyddiad hwn. Ac yn ôl y rhagolygon nos Wener, beth bynnag, mi allwn ni ddisgwyl glaw heddiw eto. Cawn weld ai felly y bydd hi.

Na, ddylem ni ddim synnu os bydd hi'n glawio heddiw. Yn ôl a ddywedwyd wrthyf y noson o'r blaen roedd hi'n dywydd gwlyb dros ben yr adeg hon y llynedd. Ac wedi'r cwbl, mae'n ganol Hydref ac yn dymor y Diolchgarwch. Ac er ei bod wedi oeri'n arw'r wythnos ddiwethaf yma, allwn ni ddim cwyno'n ormodol ynghylch tywydd y misoedd diwethaf.

Yn nhymor y Diolchgarwch, felly, dowch i ni wneud yr union beth y mae'r Wyl hon yn ein hannog i'w wneud, sef rhoi diolch i Dduw am ei holl ddaioni atom. Nid y lleiaf o'r daioni hwnnw yw elfennau gwahanol y tywydd yr ydym mor ddibynnol arnynt: yr haul a'i wres, y gwynt a'i rym, a'r glaw a'i wllith. Bu'n rhwydd iawn i ni yn y wlad hon i ddiolch am y pethau hyn oherwydd yr amrywiaeth diogel o dywydd a gawsom dros y blynnyddoedd. Beth bynnag a ddywedwn ar brydiau am hafau gwlyb a thywydd gwael, mae'n rhyfeddol o dda arnom, diolch i Dduw am hynny.

Ond nid fel pobl hunanol sy'n meddwl yn unig am ein lles ein hunain y down at Dduw, ond fel pobl sy'n awyddus hefyd i gofio gobeithio am eraill nad yw

eu hamgylchiadau mor rhwydd: pobl, er enghraifft, y mae sychder a diffyg dŵr yn fygythiad parhaus i'w lles a'u hiechyd. Diolchwn am y mudiadau a'r elusennau sy'n gweithio'n egniol i gynorthwyo a gwella amgylchiadau byw mewn gwahanol wledydd ar draws y byd.

Mae meddwl am anghenion eraill yn gwneud i ni fod yn ymwybodol o'n gwendid a'n hanallu i estyn cymorth. Ac felly diolchwn am bob mudiad Cristnogol sy'n ein galluogi, trwy ein cefnogaeth iddynt, i wneud hynny. Ac mae'r ymdeimlad o wendid ac anallu mor gyfarwydd hefyd pan feddyliwn ni am waith yr Efengyl a chenhadaeth ein heglwys. Mae'r angen mor fawr, a chymaint heb adnabod cariad Duw. Mae'r maes mor eang, a chymaint heb wybod am Iesu Grist a'i waith. Mae cymaint i'w wneud fel na wyddom yn aml sut nac ym mhle i ddechrau. Wrth ddiolch am bawb a phopeth sy'n ein helpu i geisio rhannu'r newydd da am Iesu Grist, diolchwn yn bennaf y gallwn bwyso ar Dduw ei hun i'n helpu yn y gwaith hwn. Hebdo Ef, ni allwn wneud dim. Nid anobeithio yw dweud peth felly, ond cydnabod mai Duw yw ei hun yw ein gobaith – ein hunig obaith mewn gwirionedd – yn ei waith Ef ei hun.

Boed i Dduw yn ei drugaredd fendithio ei waith er mwyn i'r sychder a'r caledi ysbrydol gilio. A boed i ninnau trwy ras Duw fod yn gydweithwyr iddo Ef i geisio ac i hyrwyddo hynny.

Gofalaeth Unedig
Deiniolen, Llanberis a Nant Peris

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Heddiw

Croeso i oedfaon Sul arall. Gweddiwn am fendith Duw ar ein haddoliad.

Bydd yr Ysgol Sul yn Neiniolen am 10.15 o'r gloch. Cynhelir Gwasanaeth Diolchgarwch am 5.00 o'r gloch a chymerir rhan gan aelodau'r eglwysi a phlant yr Ysgol Sul.

Cynhelir Gwasanaeth Diolchgarwch y Plant yn Llanberis am 10.30 o'r gloch. Ac am 5.00 o'r gloch cynhelir oedfa MOLI unwaith eto. Cofiwch bod croeso cynnes i oedfa MOLI bob mis. Byddai'n braf gweld rhagor yn dod i ymuno â ni i foli Duw yn yr oedfa hon, yn cynnwys y bobl ifanc a'u teuluoedd.

Byddaf yn arwain yr oedfa yn Rehoboth am 2.00 o'r gloch.

Cofion

Diolchgarwch Llanberis

Cynhelir Gwasanaeth Diolchgarwch plant Capel Coch am 10.30 o'r gloch heddiw. Byddwn yn derbyn bwydydd ar gyfer Banc Bwyd Caernarfon. Mae yna focs casglu ar gyfer y Banc Bwyd yn y capel ers dechrau'r flwyddyn, a chan y byddwn yn cyfeirio at waith y Banc Bwyd yn y gwasanaeth heddiw mae'n gyfle i ni ei gefnogi trwy ddod â bwydydd i'r oedfa hon.

Bydd yna oedfa Ddiolchgarwch yn Capel Coch am 10.00 o'r gloch ddydd Sul, Hydref 27 hefyd.

Deiniolen

Cynhelir Gwasanaeth Diolchgarwch yn Neiniolen am 5.00 o'r gloch heno yng ngofal aelodau'r eglwysi a phlant yr Ysgol Sul.

Yna fore Sul nesaf, Hydref 20, yn yr Oedfa Deulu am 10.00 o'r gloch fe gawn Wasanaeth Diolchgarwch arall a bydd y plant yn cymryd rhan yn honno hefyd.

Cymdeithas Undebol

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf tymor Cymdeithas Undebol Llanberis nos Fawrth diwethaf a chafwyd noson dda iawn yng nghwmni Treflyn ac Ann o Borthmadog.

Diolchwyd iddynt gan Mr Robin Jones.

Diolch yn fawr iawn i bawb a fu'n brysur yn paratoi'r bwyd oedd ar ein cyfer ar y diwedd.

CIC

Cynhelir CIC yn Capel Coch nos Wener nesaf, Hydref 18 rhwng 7.00 a 8.30 o'r gloch.

Coleg y Bala ar Daith

Bydd gweithwyr iuenctid Coleg y Bala yn cynnal diwrnod o weithgareddau 'Coleg y Bala ar Daith' ym Mharc Glasfryn, Y Ffôr ddydd Sadwrn nesaf, Hydref 19. Bydd yn ddiwrnod llawn hwyl a chaiff yr iuenctid gymryd rhan yng ngwahanol weithgareddau Glasfryn, yn cynnwys y Cartio a'r Bowlio Deg.

Bydd bws yn cychwyn o Lanberis am 9.00 o'r gloch y bore. Wedi diwrnod llawn o weithgareddau byddwn yn cychwyn adref ar ôl swper am 7.00 o'r gloch. Dyma gyfle i'r bobl ifanc gael cwmni pobl ifanc o wahanol rannau o'r Gogledd mewn awyrgylch Cristnogol.

Mae angen dod â phicnic i ginio ond mae swper wedi ei gynnwys yn y pris.

Cofiwch roi gwybod i Andrew mor fuan â phosib ddechrau'r wythnos er mwyn iddo allu cadw lle i chi.

Gweddiwn dros lwyddiant y dydd.

Cyfarfod Misol

Cynhelir Cyfarfod Misol Henaduriaeth Arfon yng Nghapel y Rhos, Llanrug am 3.00 o'r gloch a 6.30 o'r gloch ddydd Mawrth, Hydref 22. Gwasanaeth ordeinio blaenoriaid newydd fydd yr oedfa am 6.30 o'r gloch.

Cyfarfod Chwarter

Cynhelir Cyfarfod Chwarter Cyfundeb Annibynwyr Gogledd Arfon yng Nghanolfan Capel Curig (dan nawdd Eglwys Annibynnol Nantybenglog) am 7.00 o'r gloch nos Fawrth, Hydref 29. Croeso cynnes i bawb.

Diolch

Yn ystod yr oedfa yn Neiniolen nos Sul diwethaf (a hithau'n Sul cyntaf mis Hydref) cyfeiriodd Miss Marian Jones a Mrs Margaret Cynfi Griffith at y ffaith mai Sul cyntaf Hydref 1988, union 25 mlynedd yn ôl, oedd y Sul cyntaf i mi wasanaethu fel gweinidog yr Ofalaeth. Yn naturiol, roedd cofio hynny yn gwneud i bawb ohonom oedd yno feddwl am y gwahanol brofiadau a gawsom yng nghwmni ein gilydd dros y chwarter canrif ddiwethaf. Gwelsom newidiadau mawr mewn cyfnod mor faith, a diolchwn am y cydweithio hapus a gafwyd ar hyd y blynyddoedd. Diolch yn fawr i bawb ohonoch trwy'r Ofalaeth gyfan am eich gwaith a'ch gweddïau o'r cychwyn, a chyflwynwn ein gilydd i ofal Duw o'r newydd gan ddeisyf ei fendith ef arnom i'r blynyddoedd sydd, trwy drugaredd Duw, o'n blaenau.

Cyfarfod Blynyddol Efe

Cynhelir cyfarfod Blynyddol Cynllun EFE yng Nghapel y Rhos, Llanrug am 7.00 o'r gloch, nos Lun, Tachwedd 4. Mae croeso i bawb i'r cyfarfod hwn. Wnewch chi barhau i weddio dros lwyddiant y gwaith os gwelwch yn dda.

Sul Efe

Cynhelir Sul Efe yn Y Ganolfan, Llanberis rhwng 11.30 ac 1.00 o'r gloch dydd Sul, Tachwedd 17.

Fel y llynedd gobeithiwn gael cwmni ysgolion Sul yr ardal yn y digwyddiad hwn, a bydd gwahoddiad yn cael ei roi i bob un ohonynt.

Yn wahanol i'r llynedd, ni fydd taith gerdded y tro hwn ond pawb i ddod i'r Ganolfan ar eu hunion.